



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad — crynodeb o'r ymatebion

Fersiynau drafft o orchymyn newydd ar yr esemptiad
eglwysig ac o ganllawiau ar arferion gorau

Dyddiad cyhoeddi: **Hydref 2018**

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
A. Fersiwn ddrafft o Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2019	4
C1. A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r esemptiad eglwysig ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth? Os nad ydych, nodwch o dan ba amgylchiadau y dylai barhau i fod yn gymwys.	4
C2. A ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw wrthrych neu adeiledd o fewn cwrtil adeilad eglwysig rhestredig gael ei ystyried yn rhan o'r adeilad eglwysig hwnnw at ddibenion yr esemptiad eglwysig, pa un a yw wedi'i restru yn ei hawl ei hun ai peidio? Os nad ydych, esboniwch pam.	5
C3. A ydych chi'n cytuno nad yw'r Gorchymyn drafft wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol heblaw'r rheini a ddisgrifir uchod?	6
B. Fersiwn ddrafft o ganllawiau ar arferion gorau: <i>Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig</i>	7
C4. A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion arweiniol yn rhan 4 o <i>Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig</i> ? Os nad ydych, sut byddech yn eu newid?	7
C5. A ydych chi'n cytuno bod y cod ymarfer ar gyfer gweithdrefnau cysyniad enwadol yn ymdrin â'r materion allweddol? Os nad ydych, beth sydd ar goll?	8
C. Fersiwn ddrafft o ganllawiau ar arferion gorau: <i>Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru</i>	9
C6. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft, <i>Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru</i> , yn rhoi esboniad clir o rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal a chadw henebion cofrestredig? Os nad ydych, sut y gellid eu gwella?	9
C7. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn rhoi esboniad clir o'r broses o gael cydsyniad heneb gofrestrdig? Os nad ydych, sut y gellid eu gwella?	11
C8. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn rhoi digon o wybodaeth i helpu gyda'r gwaith o reoli newidiadau i henebion cofrestredig yn ofalus? Os nad ydych, beth y gellid ei ychwanegu?	11
Sylwadau ychwanegol	12
C9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.	12
Rhestr o'r ymatebwyr	14


Cyflwyniad

1. Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') welliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Roedd angen is-ddeddfwriaeth newydd, polisiau a chyngor cynllunio newydd, a chanllawiau newydd ar arferion gorau hefyd i hyrwyddo ac i helpu i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli'n ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arferion cyfredol ym maes cadwraeth.
2. Rhwng 16 Ebrill a 13 Gorffennaf 2018, aeth Llywodraeth Cymru ati, dros gyfnod o ddeuddeg wythnos, i gynnal ymgynghoriad ar is-ddeddfwriaeth arfaethedig a chanllawiau arferion gorau y bwriedir iddynt ategu Deddf 2016. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cyfraniadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn nodi ymatebion Llywodraeth Cymru.
3. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r ymatebwyr leisio barn am:
 - A. Fersiwn ddrafft o Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018;
 - B. Canllawiau drafft ar arferion gorau, *Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig*;
 - C. Canllawiau drafft ar arferion gorau, *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*.
4. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we, lle'r oedd y Gorchymyn drafft a'r canllawiau drafft ar gael i'w lawrlwytho. Roedd y ffurflen ymateb ar gael i'w llenwi ar-lein a hefyd ar ffurf dogfen Word i'w lawrlwytho.
5. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad mewn nifer o ffyrdd. Cyfeiriwyd ato ar y tudalennau Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar wefan Cadw. Tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad yng nghyhoeddiad Cadw, 'Y Newyddion Diweddaraf am yr Amgylchedd Hanesyddol', a gafodd ei ddosbarthu i ryw 350 o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd oedd â diddordeb. Anfonwyd nodyn atgoffa atynt drwy'r e-bost hefyd.

Yr ymatebion

6. Daeth 38 o ymatebion i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd un ffurflen ar-lein a oedd yn gwbl wag felly, nid yw wedi cael ei chynnwys yn yr ystadegau a ganlyn. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad 1. Nid ydym wedi cynnwys y manylion os cafwyd cais gan yr ymatebydd i fod yn ddienw.
7. Cafodd dros hanner yr ymatebion (21) eu hanfon o gyfeiriadau yng Nghymru. Er bod y gweddill wedi dod o'r tu allan i Gymru neu o gyfeiriadau nas datgelwyd, roedd bron pob un ohonynt yn dangos bod yr ymatebydd yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru a bod ganddo ddiddordeb uniongyrchol yn y cynigion yn yr ymgynghoriad.

8. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu categoreiddio yn Ffigur 1.



Ffigur 1. Ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl categori

9. Gan fod yr ymgynghoriad yn ymwneud â dau fater gwahanol, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddiystyru unrhyw gwestiynau nad oeddent o ddiddordeb iddynt neu nad oedd ganddynt brofiad ohonynt. O'r herwydd, cafwyd atebion gwag ar gyfer pob cwestiwn, ac ni chawsant hwy eu cynnwys yn ystadegau'r dadansoddiad manwl o'r cwestiynau unigol.

A. Fersiwn ddrafft o Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018

C1.	A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r esemptiad eglwysig ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth? Os nad ydych, nodwch o dan ba amgylchiadau y dylai barhau i fod yn gymwys.
------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
31	1	1	2	35
88%	3%	3%	6%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

- Roedd y mwyafrif llethol o blaid dileu'r esemptiad eglwysig ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth, gyda 31 o'r 35 ymatebydd yn cytuno â'r cynnig. Roedd un o'r ymgynghorion yn anghytuno, ac ni fynegwyd barn gan dri arall er iddynt gyflwyno sylwadau o sylwedd.
- At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau cadwraeth, o'r farn y byddai'r dileu'r esemptiad ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth yn symleiddio ac yn cryfhau'r system warchod drwy roi eglurder a chysondeb. Fodd bynnag, nifer bach yn unig o geisiadau ychwanegol am gydsyniad ardal gadwraeth a fyddai'n cael eu cyflwyno.
- Roedd un sefydliad crefyddol yn anghytuno â dileu'r esemptiad eglwysig ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth, gan ddadlau y dylai'r esemptiad barhau ar gyfer pob adeilad ac adeiledd anrestredig mewn ardal gadwraeth.
- Mewn dau ymateb a ddaeth oddi wrth gyrff a oedd yn cynrychioli sefydliadau crefyddol y byddai'r cynnig yn effeithio arnynt, dywedwyd nad oedd ganddynt farn bendant y naill ffordd neu'r llall, a'u bod yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor ond bod ganddynt amheuan. Roeddent yn pryderu y gallai fod angen cydsyniad ardal gadwraeth a chydsyniad enwadol ar gyfer mân waith pe bai dileu'r esemptiad yn cael effaith ar waith ar raddfa fach i ddymchwel rhan o adeilad ac ar fathau penodol o waliau terfyn.

Ymateb Lywodraeth Cymru

- Dim ond os bwriedir i adeilad anrestredig sydd mewn ardal gadwraeth gael ei ddymchwel yn llwyr (neu bron yn llwyr) y mae gofyn cael cysyniad ardal gadwraeth. Mae'n anodd gweld sut y byddai dymchwel adeilad i'r fath raddau yn caniatáu iddo barhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig — mae hynny'n un o ofynion statudol yr esemptiad eglwysig. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd yn gliriach i'r awdurdodau cynllunio lleol ac i'r enwadau esempt os bydd pob cais am gysyniad ardal gadwraeth yn cael ei drafod o dan y system seciwlar. Rydym wedi ychwanegu at y canllawiau ategol, gan roi gwybodaeth fanylach ynghylch pryd y bydd angen cydsyniad ardal gadwraeth.

C2.	A ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw wrthrych neu adeiledd o fewn cwrtil adeilad eglwysig rhestredig gael ei ystyried yn rhan o'r adeilad eglwysig hwnnw at ddibenion yr esemptiad eglwysig, pa un a yw wedi'i restru yn ei hawl ei hun ai peidio? Os nad ydych, esboniwch pam.
------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	6	2	2	35
71%	17%	6%	6%	100%

Crynodeb o'r Dadansoddiad

- O'r 35 ymateb a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn, roedd cefnogaeth gref i'r cynnig gyda 25 yn cytuno ag ef. Roedd chwech yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig, nid oedd gan ddau farn y naill ffordd neu'r llall, a dim ond dau a gyflwynodd sylwadau.
- Roedd chwe ymatebydd, o sefydliadau gwahanol, yn anghytuno'n gryf â'r cynnig, gan ddadlau mai dim ond i adeiladau ac adeileddau sy'n cael eu defnyddio i addoli y dylai'r esemptiad fod yn gymwys. Nodwyd bod defnydd seciwlar yn cael ei wneud o lawer o adeiladau sydd o fewn cwrtil adeiladau eglwysig, megis swyddfeydd neu gylchoedd chwarae annibynnol. Dadleuai rhai o'r ymgynghoreion fod adeileddau cwrtil, fel pyrth mynwentydd a beddi, yn rhan o amwynder gweledol yr ardal leol a bod y cyhoedd yn gallu mynd atynt. O'r herwydd, dylai gwaith ar adeiladau ac adeileddau cwrtil o'r fath gael ei ystyried o dan y system seciwlar ehangach.
- Nid oedd gan bedwar o'r ymatebwyr farn y naill ffordd neu'r llall, ond cyflwynwyd sylwadau ganddynt. Roedd grŵp cadwraeth rhanbarthol yn derbyn egwyddor y newid, ond yn pryderu nad oedd cysondeb ar draws Cymru o ran sut y mae'r enwadau gwahanol yn rhoi'r esemptiad ar waith. Roedd yn galw ar Cadw i fonitro'n fwy effeithiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon y rheini sydd yn erbyn y newid arfaethedig a hefyd eu barn ynglŷn â pharhau â'r trefniadau seciwlar presennol ar gyfer adeiladau rhestredig sydd o fewn cwrtil adeilad eglwysig rhestredig. Wedi dweud hynny, os yw trefniadau rheoli enwadol yn ddigon i reoli gwaith ar yr eglwys ei hun — sef yr adeiledd mwyaf o ran maint, mwyaf cymhleth ac, yn ôl pob tebyg, hynaf ar y safle — rydym o'r farn y dylent fod yn briodol ar gyfer unrhyw adeiladau neu adeileddau eraill o fewn ei chwrtil.
- Rydym wedi nodi sylwadau rhai o'r ymatebwyr i'r perwyl nad oes cysondeb ar draws Cymru o ran sut y mae'r enwadau'n rhoi'r esemptiad ar waith. Bydd y canllawiau newydd yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb drwy ddarparu cod ymarfer i'r enwadau ei ddilyn wrth weinyddu'r esemptiad. Maent hefyd yn nodi'r

trefniadau ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru.

C3. A ydych chi'n cytuno nad yw'r Gorchymyn drafft wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol heblaw'r rheini a ddisgrifir uchod?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
28	1	3	2	34
82%	3%	9%	6%	100%

Crynodeb o'r Dadansoddiad

20. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno nad yw'r Gorchymyn yn gwneud unrhyw newidiadau eraill o sylwedd. Dim ond un o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno, nid oedd gan bedwar farn y naill ffordd neu'r llall, neu dim ond cyflwyno sylwadau a gyflwynwyd ganddynt.
21. Ym marn yr ymatebydd a oedd yn anghytuno, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi achub ar y cyfle i foderneiddio'r broses esemptio. Gan dynnu ar ei brofiad personol, teimlai'r unigolyn hwnnw fod angen monitro'r drefn esemptio yn agosach ac nad oedd mor effeithiol nac mor dryloyw â'r system seciwlar. Er bod ymatebydd arall yn cytuno â'r cwestiwn, gwnaeth ef sylwadau tebyg.
22. Yn ôl un awdurdod lleol nad oedd ganddo farn y naill ffordd neu'r llall, byddai o fudd i'r system esemptio pe bai system orfodi effeithiol yn cael ei chyflwyno, pe bai gan yr awdurdodau lleol aelodau ar bwyllgorau cynghori'r esgobaethau a phe bai Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiadau rheolaidd i weld pa mor effeithiol yw'r esgobaethau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

23. Bydd y canllawiau, *Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig*, yn helpu i sicrhau monitro effeithiol drwy ei gwneud yn ofynnol i'r enwadau esempt baratoi adroddiad blynyddol am eu prosesau rheoli. Bydd yr adroddiad hefyd yn cofnodi pwy roddodd gyngor arbenigol i'r corff gwneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cadw at yr egwyddorion a'r cod ymarfer yn y canllawiau, ynghyd â rhoi'r trefniadau monitro ac adolygu ar waith, yn creu fframwaith cadarn ar gyfer rheoli newid mewn mannau addoli rhestredig yng Nghymru.

B. Canllawiau drafft ar arferion gorau: *Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig*

C4.	A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion arweiniol yn rhan 4 o <i>Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig</i>? Os nad ydych, sut byddech yn eu newid?
------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
26	4	2	3	35
75%	11%	6%	8%	100%

Crynodeb o'r Dadansoddiad

24. Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn, a chyflwynodd nifer ohonynt sylwadau, pa un a oeddent yn cytuno ai peidio.
25. Pwysleisiwyd mewn sawl un o'r ymatebion fod angen i'r enwadau ymgynghori a bod angen i'w systemau fod mor drylwyr, agored, tryloyw ac atebol â systemau seciwlar. Roedd rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn yn teimlo y byddai o gymorth cael eglurdeb ynghylch yn union beth fyddai hynny'n ei olygu yn ymarferol, ac roedd rhai o'r rheini a oedd yn anghytuno o'r farn honno oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd safonau tebyg yn cael eu defnyddio.
26. Roedd sawl un o'r ymatebion yn cyfeirio at fonitro, oherwydd bod hynny'n cael ei ystyried yn bwysig o ran sicrhau bod modd cymharu systemau enwadol â rhai seciwlar. Roedd un sefydliad eglwysig yn teimlo bod angen bod yn realistig ac yn benodol am y disgwyliadau o ran monitro effeithiau newid.
27. Yn gyffredinol, roedd croeso hefyd i'r gofyniad i gynnal asesiad o'r effaith ar dreftadaeth. Awgrymodd un awdurdod lleol y dylai fod yn rhaid i'r enwadau esempt ddefnyddio trefn asesu sy'n union yr un peth â'r un seciwlar. Dywedodd grŵp sy'n cynrychioli swyddogion cadwraeth yng Nghymru y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o ganllawiau ar baratoi datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth.
28. Teimlai nifer o'r ymatebwyr y byddai diffiniad pellach o 'ddibenion eglwysig' yn ddefnyddiol, yn enwedig o gofio bod adeiladau eglwysi'n cael eu defnyddio mwy a mwy at ddibenion heblaw addoli. Cyfeiriodd yr Eglwys Gatholig at y ffaith nad yw seintwarau'n dod o dan yr esemptiad. Yn aml, mae'r llety hwn ar gyfer offeiriaid plwyf yn sownd wrth fan addoli ac mae'n rhan o gyfateilad rhestredig.
29. O ran y gofyniad i geisiadau gan drydydd partion gael eu gwneud o dan y system seciwlar ar gyfer ceisio cydsyniad adeilad rhestredig, nododd rhai o'r ymgynghorion y gallai hynny arwain at sefyllfa lle y byddai dwy set o drefniadau rheoli. Gofynnwyd a fyddai modd ailedrych ar hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

30. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth bendant i'r egwyddorion arweiniol. Yng ngoleuni sylwadau'r ymatebwyr, rydym wedi mynd ati i wella'r canllawiau a'u gwneud yn gliriach. Maent bellach yn rhoi mwy o sylw i adeileddau cwrtil ac yn cynnwys rhestr wirio o faterion i'w cynnwys mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Er nad yw seintwrau a manau eraill lle mae gweinidogion yr efengyl yn preswyllo yn dod o dan gwmpas yr esemptiad, mae'r canllawiau'n rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r dosbarth hwn o adeiladau ac yn awgrymu ffyrdd gwell o geisio cyngor ac ymgynghori. Oherwydd y gallai cais gan drydydd parti gael effaith y tu allan i'r gymuned eglwysig o dan sylw, mae'n briodol bod yr awdurdod cynllunio lleol yn chwarae rhan yn y broses gydsynio.

C5.

A ydych chi'n cytuno bod y cod ymarfer ar gyfer gweithdrefnau cysyniad enwadol yn ymdrin â'r materion allweddol? Os nad ydych, beth sydd ar goll?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
21	7	4	3	35
60%	20%	11%	9%	100%

Crynodeb o'r Dadansoddiad

31. Roedd mwyafrif yr ymgynghoreion yn cytuno â'r cwestiwn, a chyflwynodd y rhan fwyaf ohonynt sylwadau manwl, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer cryfhau sawl agwedd ar y canllawiau.
32. Mynegodd yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno bryderon am effeithiolrwydd y trefniadau presennol yn ymwneud ag ymgynghori, cydymffurfio a gorfodi, a chau ac afreidrwydd. Roeddent am weld mwy o eglurder am y materion hynny.
33. Codwyd nifer o bwyntiau am y gofyniad i hysbysebu gwaith arfaethedig. Teimlai nifer o'r ymatebwyr fod defnyddio papurau newyddion lleol at y diben hwn ymhell ar ôl yr oes erbyn hyn. Teimlai eraill y dylid hysbysebu gwaith ar du mewn adeiladau rhestredig gradd II. Cynigiodd cynrychiolydd un awdurdod lleol y dylid gwneud hynny drwy roi hysbysiadau ar yr adeilad neu gerllaw iddo.
34. Tynnwyd sylw mewn nifer o'r ymatebion at faterion yn gysylltiedig â threfniadau ar gyfer cael gafael ar gyngor arbenigol, nid dim ond oddi wrth gyrff cynghori, ond hefyd ar gyfer cael cyngor oddi wrth y sefydliad perthnasol ac ymgynghori ag ef cyn cyflwyno cais. Teimlai'r ymddiriedolaethau archaeolegol a'r cymdeithasau amwynder y gallent gynnig cymorth mwy effeithiol pe baent yn cael eu cynnwys yn gynt. Roedd y cyrff amwynder hefyd yn teimlo y gallent gynnig cyngor mewn ffordd fwy effeithiol pe bai'r adroddiad monitro blynyddol yn cael eu rhannu â nhw.
35. Mynegwyd rhai pryderon am yr angen i ddefnyddio cynghorwyr arbenigol sydd wedi'u hachredu yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol. Gwirfoddolwyr yw

llawer o gynghorwyr, ac yn eu plith y mae pobl broffesiynol wedi ymddeol nad ydynt, o bosibl, wedi'u hachredu.

36. Roedd gan y cymdeithasau amwynder amheuon am y broses ymgynghori a phenderfynu. Byddai mwy o ganllawiau'n sicrhau bod gwybodaeth briodol a chymesur yn cael ei chyflwyno gyda cheisiadau ac yn cyrraedd yr ymgynghoreion. Ni ddylid defnyddio amodau i wneud iawn am ddiffygion yn yr wybodaeth a gyflwynir gyda chais.
37. Roedd un o'r ymddiriedolaethau archaeolegol yn anghytuno â'r cwestiwn, gan grybwyll bod trefniadau ar gyfer ymdrin ag archaeoleg yn anghyson ac yn dameidiog. Dywedodd y byddai'n fuddiol darparu hyfforddiant er mwyn ategu'r canllawiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

38. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cod ymarfer yn mynd i'r afael â'r materion allweddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r canllawiau a'u gwneud yn gliriach yng ngoleuni'r sylwadau a'r awgrymiadau manwl a wnaed gan yr ymgynghoreion. Rydym wedi dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau mewn papurau newyddion lleol. Ond wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod yr enwadau'n defnyddio rhwydweithiau lleol i greu ymwybyddiaeth ledled y gymuned am y newidiadau arfaethedig. Bydd gweithredu'r trefniadau ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chysondeb wrth gymhwyso'r egwyddorion arweiniol a'r cod ymarfer.

C. Canllawiau drafft ar arferion gorau: *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*

C6.	A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft, <i>Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru</i>, yn rhoi esboniad clir o rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal a chadw henebion cofrestredig? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwella?
------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
23	3	3	1	30
77%	10%	10%	3%	100%

Crynodeb o'r Dadansoddiad

39. Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Cyflwynwyd sylwadau ac awgrymiadau ar sut i wella'r canllawiau gan saith o'r ymgynghoreion. Nid oedd tri ohonynt yn cytuno.

40. Ym marn dau ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn, dylai'r canllawiau bwysleisio pwysigrwydd gofalu am henebion cofrestredig er budd y cyhoedd, a hynny er mwyn meithrin mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb mewn perchenogion. Awgrymwyd hefyd y dylai'r canllawiau gynghori ymgeiswyr i ymgynghori ag ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru ac archaeolegwyr y Parciau Cenedlaethol am effaith y gwaith a ganiateir ar archaeoleg nad yw'n gofrestredig.
41. Dywedodd dau o'r ymgynghoreion a oedd yn cytuno â'r cwestiwn y gallai perchenogion ei chael yn anodd deall rhai o'r termau a ddefnyddir yn y canllawiau, er enghraifft, 'cytundebau rheoli', 'datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth' a 'datganiadau arwyddocâd'.
42. Gwnaed sawl awgrym ar sut i wella'r tabl, 'Cynnal eich Heneb Gofrestredig'. Gofynnodd dau ymatebydd i'r adran ar anifeiliaid sy'n tyrchu esbonio sut y mae'r adran honno'n berthnasol i foch daear, sy'n rhywogaeth a warchodir. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi rhagor o fanylion am y cydsyniadau a'r caniatadau sydd eu hangen y tu allan i ardal gofrestredig; er enghraifft, mae angen caniatâd cynllunio o hyd ar gyfer datblygiad sydd y tu allan i ardal gofrestredig. Teimlai un o'r ymgynghoreion y dylai'r tabl nodi mai dim ond ar gyfer gweithgarwch mewn ardal gofrestredig y mae angen cydsyniad heneb gofrestredig.
43. Ym marn un o'r ymatebwyr eraill, roedd yr egwyddorion ar gyfer atgyweirio ac adfer yn rhy llym. Mae'n bosibl y byddai dryswch hefyd ynglŷn â'r ffordd briodol o ddefnyddio'r dulliau a argymhellir. Er enghraifft, gallai dull 'gwahaniaethol' fod yn briodol ar gyfer cyfnod o waith atgyweirio mawr, ond yn anaddas ar gyfer sawl cyfnod o waith cynnal a chadw ar raddfa fach megis ailbwyntio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

44. Er bod mwyafrif yr ymgynghoreion yn cytuno â'r cwestiwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau manwl a gynigiwyd ac wedi diwygio'r canllawiau. Rydym wedi ymhelaethu ar rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â henebion cofrestredig ac wedi rhoi esboniadau hawdd eu deall o nifer o dermau a phrosesau. Er bod Llywodraeth Cymru yn annog pob perchennog i reoli ei henebion cofrestredig mewn modd cyfrifol, rydym yn gwneud hynny o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol a'n *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*.

C7. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn rhoi esboniad clir o'r broses o gael cydsyniad heneb gofrestredig? Os nad ydych, sut y gellid eu gwella?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	0	4	0	29
86%	0%	14%	0%	100%

Crynodeb o'r Dadansoddiad

45. Roedd mwyafrif llethol yr ymgynghoreion yn cytuno bod y canllawiau'n rhoi esboniad clir o'r broses cydsyniad heneb gofrestrdig. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau gan y rheini nad oedd ganddynt farn y naill ffordd neu'r llall.
46. Ym marn pump o'r ymatebwyr, gallai'r canllawiau ymhelaethu ar y berthynas rhwng cydsyniad heneb gofrestrdig a systemau cydsynio a chaniatâd eraill. Er enghraifft, dylent ei gwneud yn glir i ddatblygwyr ac ymgwymerwyr statudol fod angen cydsyniad heneb gofrestrdig yn aml yn ogystal â chaniatâd cynllunio neu drwyddedau ar gyfer gwaith morol, coedwigaeth neu arllwys sbwriel.
47. Roedd dau o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyngor ar ddefnyddio synwryddion metel yn anghyson. Er bod un adran yn awgrymu y byddai cydsyniad yn cael ei roi ar gyfer defnyddio synwrydd metel, mae un arall yn dweud nad yw'n briodol defnyddio synwrydd metel ar heneb gofrestrdig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

48. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu mewn ymateb i'r awgrymiadau cadarnhaol a wnaed gan yr ymatebwyr er mwyn cryfhau'r canllawiau a gwella'r esboniad a roddir o'r broses cydsyniad heneb gofrestrdig.

C8.	A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn rhoi digon o wybodaeth i helpu gyda'r gwaith o reoli newidiadau i henebion cofrestrdig yn ofalus? Os nad ydych, beth y gellid ei ychwanegu?
------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
21	3	5	0	29
73%	10%	17%	0%	100%

Crynodeb o'r Dadansoddiad

49. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Cyflwynwyd sylwadau gan saith o bobl, gan gynnwys y tri a oedd yn anghytuno a'r un nad oedd ganddo farn y naill ffordd neu'r llall.
50. O blith y rheini a oedd yn anghytuno, credai dau ohonynt fod y syniad o reoli newid i heneb gofrestredig yn niweidiol ynddo'i hun. Teimlent fod tŷn y canllawiau'n rhy oddefol ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gadw heneb yn ei chyflwr presennol. Dylid hefyd roi mwy o bwys ar y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer gwarchod henebion cofrestredig.
51. Ym marn un o'r ymatebwyr eraill a oedd hefyd yn anghytuno â'r cwestiwn, roedd rhai o'r datganiadau yn y canllawiau yn rhy haearnaidd.
52. Gofynnodd pedwar o'r ymgynghoreion eraill am ragor o wybodaeth am faterion megis dod o hyd i ddarganfyddiadau newydd wrth ddatblygu, mynediad i stoc a rheoli llystyfiant, ac arolygon archaeolegol nad ydynt yn amharu ar yr heneb. Awgrymodd un hefyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar drafod cynigion i gloddio gyda Cadw yn gynnwys yn y broses.

Ymateb Llywodraeth Cymru

53. Roedd mwyafrif clir o'r ymgynghoreion o'r farn bod yr wybodaeth yn y canllawiau yn ddigon i helpu i reoli newidiadau i henebion cofrestredig yn ofalus. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth ofalus i sylwadau'r ymatebwyr. Rydym wedi newid y canllawiau er mwyn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cynnig cyngor ymarferol i helpu gyda'r gwaith o reoli henebion cofrestredig mewn ffordd gynaliadwy a nodi'r cyd-destun deddfwriaethol ehangach ar gyfer gwaith o'r fath.

Sylwadau Ychwanegol

C9.	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.
------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol

54. Gwnaeth tri ar ddeg o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol. Cafodd y rheini sy'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiynau cynharach eu hystyried wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r cwestiynau hynny.
55. Dywedodd un o'r ymatebwyr y dylid darparu canllawiau cliriach am yr hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud pe na fyddai safon unrhyw waith ar heneb gofrestredig yn dderbyniol, yn enwedig mewn achosion lle mai'r ffordd y cafodd y gwaith ei wneud, yn hytrach na'r fanyleb ar ei gyfer, yw'r broblem.

56. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylai adeiladau eglwysig fod yn gofrestredig yn hytrach nag yn rhestredig. Byddai'n golygu na fyddent bellach yn dod o dan yr esemptiad eglwysig ac y byddent o dan reolaeth Gweinidogion Cymru.
57. Cynigiodd ymgynghorai arall fod angen archwilio a chryfhau'r trefniadau ar gyfer rheoli newidiadau i eglwysi cadeiriol yng Nghymru.
58. Disgrifiodd dau o'r ymatebwyr eu profiad nhw o weithio yn unol â gweithdrefnau'r esemptiad eglwysig, gan esbonio'r heriau a'r rhwystrau a wynebwyd ganddynt. Roeddent o'r farn bod gwaith wedi cael ei awdurdodi heb ystyried pa mor bwysig yw gwerth mannau addoli o ran treftadaeth, ac roeddent yn galw am reolau llymach ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau eglwysig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

59. Mae'r canllawiau drafft ar arferion gorau *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*, yn rhoi gwybodaeth am y pwerau gorfodi sydd ar gael i Weinidogion Cymru os gwneir gwaith heb ei awdurdodi. Un agwedd bwysig ar reoli contract ar gyfer gwaith ar heneb gofrestredig yw monitro sut y mae'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud.
60. Mae Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 yn atal unrhyw adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig rhag cael eu cofrestru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r enwadau esempt, â'u trefniadau rheoli llym, sydd yn y sefyllfa orau i reoli newidiadau i fannau addoli rhestredig. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod y bydd gofyn monitro'r system esemptiad eglwysig yn agosach er mwyn rhoi sicrwydd bod y cod ymarfer newydd yn cael ei ddilyn.
61. Bydd yr egwyddorion arweiniol a'r cod ymarfer sy'n rhan o *Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig* yn cryfhau'r trefniadau rheoli newid ar gyfer holl fannau addoli rhestredig yr enwadau esempt.
62. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu sylw i'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn wrth iddi fynd ati i fonitro'r system esemptiad eglwysig yn y dyfodol.

Rhestr o'r ymatebwyr

Mae pob cofnod yn rhoi rhif yr ymateb i'r ymgynghoriad, enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ymatebodd (oni bai bod cais wedi'i wneud i fod yn ddiennw) a lleoliad yr ymatebydd (os yw'n hysbys).

Rhif	Enw	Lleoliad
001	Heb ei roi	Heb ei roi
002	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Heb ei roi
003	Heb ei roi	Heb ei roi
004	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent	Abertawe
005	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed	Llandeilo
006	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Heb ei roi
007	Eglwys Loegr, Cyngor yr Archesgob, yr Is-adran Eglwysi Cadeiriol ac Adeiladau Eglwysig	Heb ei roi
008	Cyngor Tref y Barri	Y Barri
009	Grŵp Swyddogion Cadwraeth y Canolbarth a'r Gorllewin	Doc Penfro
010	Cytûn — Churches Together in Wales CLAS — Y Cyngor Cynghori ar Ddeddfwriaeth Eglwysi	Caerdydd Llundain
011	Dyneiddwyr y DU	Heb ei roi
012	Corff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru	Caerdydd
013	Susan J. Davies	Aberystwyth
014	Grŵp Treftadaeth Cymru	Heb ei roi
015	Cyngor Tref Abergele	Cymru
016	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Heb ei roi
017	Cyngor Cyfreithiol Cymunedol Cymru	Merthyr Tudful
018	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Merthyr Tudful
019	Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr	Heb ei roi
020	Y Pwyllgor Treftadaeth, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr	Llundain
021	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Heb ei roi
022	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Llanelli
023	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Cadwraeth)	Conwy
024	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Heb ei roi
025	Siân Rees	Heb ei roi
026	Cyngor Sir Ynys Môn	Llangefni
027	A. Jones	Heb ei roi
028	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Heb ei roi
029	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr
030	Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol: Cymru	Bangor
031	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys	Y Trallwng
032	Pwyllgor Cynghori Esgobaethol Llandaf (a Docomomo-UK)	Caerdydd
033	Y Gymdeithas Fictoraidd	Llundain
034	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd	Bangor
035	Y Pwyllgor Eglwysi Hanesyddol (Cymru a Swydd Henffordd)	Caerdydd
036	Y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol	Llundain
037	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Castell-nedd
038	Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol	Tisbury